**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Jayne Bryant AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/RH

31 Ionawr 2019

Annwyl Jayne

**Ymateb i adroddiad 03-18 o dan Reol Sefydlog 22.9**

Gofynnwyd i'r Comisiwn ystyried yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Comisiynydd Safonau yn eu hadroddiad 03-18 o dan Reol Sefydlog 22.9.

Rwy'n ymwybodol eich bod hefyd wedi gofyn i'r Bwrdd Taliadau ystyried yr argymhellion. Bydd y Bwrdd yn ysgrifennu atoch ar wahân. Diben y llythyr hwn, fodd bynnag, yw rhoi ymateb y Comisiwn i'r argymhellion hyn.

Mae'r Penderfyniad yn amlinellu'r gofynion sydd ynghlwm wrth gael mynediad at y Lwfans Costau Swyddfa. Mae'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn cynnig cyngor a chanllawiau i Aelodau i'w galluogi i wneud y defnydd gorau o'r cymorth ariannol sydd ar gael iddynt. Mae'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi cynhyrchu llyfryn ar *sut i gaffael swyddfa etholaethol neu ranbarthol*.

Mae'r canllawiau dan sylw yn ymdrin â'r materion y dylai Aelodau eu hystyried wrth ddod o hyd i swyddfa a negodi prydles. Felly, rydym yn derbyn eich argymhelliad bod Comisiwn y Cynulliad yn cynhyrchu rhestr wirio i Aelodau sy'n awgrymu'r meysydd i'w hystyried a'r camau i'w cymryd wrth ddod o hyd i swyddfa etholaethol. Bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ymestyn y canllawiau dan sylw i gynnwys rhestr wirio.


**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Bydd y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau hefyd yn addasu'r canllawiau ac unrhyw weithdrefnau y maent yn eu dilyn wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ac wrth brosesu hawliadau mewn perthynas â lwfansau a ddarperir drwy'r Penderfyniad ar gyfer swyddfeydd rhanbarthol neu etholaethol, yn unol ag ymateb y Bwrdd Taliadau.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd